# Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn

**Heol y Bardd, Porth Tywyn,**
**Sir Gaerfyrddin SA16 0NL**
**Ffôn:- 01554 832101**
**Ebost: admin@parcytywyn.ysgolccc.cymru**
**www.ysgolparcytywyn.co.uk**


07/04/25

Annwyl riant/gofalwr,

Ynghyd â'r cystadlaethau llwyfan mae Eisteddfod yr Urdd hefyd yn cynnal cystadlaethau Celf a Chrefft.


Os hoffech i'ch plentyn gystadlu mewn unrhyw gystadlaethau celf a Chrefft, gofynnwn i chi weithio ar y rhain gartref dros y Gwyliau Pasg a dod â'u cynigion i'r ysgol erbyn Dydd Llun 28ain o Ebrill, 2025.

Rhaid i'ch plentyn fod yn aelod o'r Urdd i gystadlu. Mae aelodaeth ar gael trwy ddilyn y ddolen hon:
https://www.urdd.cymru/cy/ymuno/

Mae pedwar categori ar gyfer cystadlu – Blwyddyn 2 ac iau, Blynyddoedd 3 a 4, Blynyddoedd 5 a 6 fel unigolion. Mae cystadleuthau wedi marcio gyda ** i unigolion NEU grwpiau o blant Blwyddyn 6 a iau.

Isod mae rhestr o'r cystadlaethau Celf a Chrefft. Eleni y thema ar gyfer pob cais yw GWREIDDIAU.

Dyma ychydig o syniadau i'ch sbarduno!




Rhestr cystadleuthau:

**Cynllunio Crys-T**
Cynllunio Crys-T (blaen A4 a chefn A4 a'i gyflwyno ar ddarn A3) i gyfleu unrhyw agwedd neu agweddau o "GWREIDDIAU."
Gallwch lawrlwytho templed o grys T gwag yma.

https://www.urdd.cymru/files/3316/9468/4730/Templed_Crys-T_T-shirt_2023-24.pdf

**Cymeriad Cartŵn**
Dyfeisio cymeriad cartŵn gan **dynnu llun o'r cymeriad ac ysgrifennu** darn amdano heb fod yn hwy na 150 gair.

**Llun 2D**
Creu llun gan ddefnyddio un neu gyfuniad o'r cyfryngau yma: Pensil, Inc, Creon, Pastel neu Baent i fesur dim mwy na 760mm x 560mm.

**Gwaith Creadigol 2D** **
Cyflwyno unrhyw waith 2D gan ddefnyddio un neu gyfuniad o'r cyfryngau yma: Mosaig, Collage, Teils, Pren, Plastig neu Metal i fesur dim mwy na 760mm x 560mm

**Graffeg Cyfrifiadurol**
Gwaith gwreiddiol wedi ei greu ar gyfrifiadur i fesur dim mwy na A4.

**Ffotograff Wedi'i Addasu**
Wedi'i Addasu Addasu ffotograff i greu delwedd ddigidol newydd. Gellir defnyddio sganiwr ac unrhyw feddalwedd i olygu a chreu un darn o waith gorffenedig i fesur dim mwy na A4. **Rhaid cynnwys y ffotograff gwreiddiol gyda'r gwaith.**

**Ffotograffiaeth : Llun Du a Gwyn**
Un llun ffotograff du a gwyn neu fonocrom i fesur dim mwy na A4. (e.e. 10"x8" neu 12"x10") Dylid cyflwyno pob eitem wedi'i fowntio ar gerdyn du. Rhaid cyflwyno pob llun ar bapur safonol ffotograffiaeth. Ni chaniateir papur llungopïo.

**Ffotograffiaeth : Llun Lliw**
Un llun ffotograff lliw i fesur dim mwy na A4. (e.e. 10”x8” neu 12”x10”) Dylid cyflwyno pob eitem wedi'i fowntio ar gerdyn du. Rhaid cyflwyno pob llun ar bapur safonol ffotograffiaeth. Ni chaniateir papur llungopïo.

**Ffotograffiaeth : Cyfres o Luniau Du a Gwyn**
Cyfres o 4 ffotograff du a gwyn neu fonocrom. Pob llun i fesur dim mwy na A5. (e.e. 7”x5”) Dylid cyflwyno pob eitem wedi'i fowntio ar gerdyn du. Rhaid cyflwyno pob llun ar bapur safonol ffotograffiaeth. Ni chaniateir papur llungopïo.

**Ffotograffiaeth : Cyfres o Luniau Lliw**
Cyfres o 4 ffotograff lliw. Pob llun i fesur dim mwy na A5. (e.e. 7”x5”) Dylid cyflwyno pob eitem wedi'i fowntio ar gerdyn du. Rhaid cyflwyno pob llun ar bapur safonol ffotograffiaeth. Ni chaniateir papur llungopïo.

**Argraffu ****
Argraffu ar unrhyw ddeunydd gan ddefnyddio un neu gyfuniad o gyfryngau e.e. Leino, Pren, Plastig, Papur, Ffabrig neu Fetel i fesur dim mwy na 760mm x 560mm

**Tecstiliau Creadigol ****
**- Addurno ar ffabrig**
Addurno ffabrig 2D neu 3D gan ddefnyddio unrhyw dechneg neu gyfuniad o dechnegau megis : Paentio, Print, Pwyth, Clymu a Llifo, Batic, Ffeltio, Argraffu Bloc neu Ddefnyddio Cyfrifiadur i fesur dim mwy na 750mm x 750mm x 750mm

**Creu Tecstiliau ****
**- Creu ffabrig neu greu eitem allan o ffabrig**
Creu gwaith 2D neu 3D sy’n defnyddio deunyddiau a thechnegau megis: Gwau â Llaw, Crosio, Ffeltio neu Wehyddu i fesur dim mwy na 750mm x 750mm x 750mm.

**Ffasiwn ****
Creu eitem o’r newydd i’w wisgo gan ddefnyddio unrhyw ddeunyddiau.

**Pypedau ****
Hyd at 3 pyped o unrhyw fath megis: bys, llaw neu ar linyn. Dylai pyped ar linyn gael ei gyflwyno mewn ffrâm bwrpasol. Ni ddylai dimensiwn y ffrâm i gynnal y pypedau fod yn fwy na 750mm x 750mm x 750mm.

**Gwaith 3D** **
Cyflwyno gwaith 3D mewn unrhyw gyfrwng neu gyfuniad o gyfryngau i fesur dim mwy na 750mm x 750mm x 750mm a phwyso llai na 12kg

**Uwchgylchu ****
Uwchgylchu unrhyw wrthrych/au i greu darn newydd. Rhaid cynnwys ffotograff(au) o’r gwrthrych(au) gwreiddiol fel tystiolaeth o’r camau a gymerwyd. Y gwaith gorffenedig i fesur dim mwy na 750mm x 750mm x750mm.

**Serameg ****
Rhaid sicrhau fod y clai wedi cael o leiaf un taniad bisged mewn odyn. Dylai’r gwaith ffitio i ffrâm neu focs 400mm x 400mm x 400mm

**Gemwaith ****
Gemwaith gwreiddiol mewn unrhyw gyfrwng neu gyfuniad o gyfryngau.

**Dylunio a Thechnoleg ****
Cyflwyno gwaith Dylunio a Thechnoleg i fesur dim mwy na 750mm x 750mm x 750mm a phwyso llai na 12kg. Rhaid cynnwys cyflwyniad cefndirol ysgrifenedig a thystiolaeth yn egluro’r camau wrth gyflwyno’r gwaith

**Gwybodaeth ychwanegol:**
Maint - Maint pob eitem a Gwaith 2D: Dim mwy 760mm x 560mm b Gwaith 3D: Dim mwy na 750mm x 750mm x 750mm c Gwaith Cerameg/Crochenwaith: Dim mwy na 400mm x 400m x 400m

Diffiniad Gwaith 3D - Gwrthrych sy’n weledol o bob cyfeiriad ac sy’n cynnal ei hun.

Pwysau - Ni all unrhyw eitem Gwaith 3D bwyso mwy na 12kg.

Mowntio - Er mwyn diogelu'r gwaith, caniateir mowntio ar bapur neu garden os oes angen. Ni chaniateir defnyddio 'mownt ffenestr' na ffrâm ar gyfer gwaith 2D ac eithrio lle mae ffrâm yn angenrheidiol ar gyfer strwythur y gwaith. Caiff y gwaith buddugol ei fowntio'n broffesiynol ar gyfer yr arddangosfa.

Am wybodaeth cyflawn o destunau Eisteddfod Maldwyn eleni dilynnwch:

https://www.urdd.cymru/files/4817/3859/5073/Rhestr_Testunau_CY_25_F.04.pdf

Dymunwn pob lwc i bawb sydd am gystadlu a cofiwch ddod a'ch gwaith i'r ysgol erbyn Dydd Llun 28ain o Ebrill, 2025.

*Mrs H Davies*

CYMRU DROS HEDDWCH WALES FOR PEACE

Eco-Sgolion

International School Award

Ysgolion Iach Sir Gaerfyrddin

Carmarthenshire's Healthy Schools Scheme

FAIRTRADE CYFLAWNI'N DEG